# SL(5)758 – Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchmynion Atal Dros Dro Interim) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2021 (15 munud)

## Cefndir a diben

Parhawyd â bodolaeth Cyngor y Gweithlu Addysg ("y Cyngor") o dan adran 2 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"). yrY Cyngor yw'r rheoleiddiwr annibynnol yng Nghymru ar gyfer:

- athrawon ysgol;
- gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion;
- athrawon addysg bellach (darlithwyr);
- gweithwyr cymorth dysgu yn y sector addysg bellach;
- ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith;
- gweithwyr ieuenctid cymwysedig; a
- gweithwyr cymorth ieuenctid cymwysedig.

Fel rhan o'i rôl fel rheoleiddiwr, mae'n ofynnol i'r Cyngor gadw cofrestr o bawb sydd wedi'u cofrestru â'r Cyngor ym mhob un o'r categorïau a restrir uchod (a elwir yn "Pobl Gofrestredig").

Mae Deddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynnal unrhyw ymchwiliadau sy'n briodol yn ei farn ef os honnir bod Person Cofrestredig yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol neu os honnir bod yr unigolyn wedi'i gael yn euog o drosedd berthnasol. Ar ôl cynnal ymchwiliad o'r fath, rhaid i'r Cyngor benderfynu ar y camau i'w cymryd, ac un canlyniad posibl yw y gwneir gorchymyn disgyblu yn dilyn gwradawiad.

Ar hyn o bryd, nid yw'r swyddogaethau a roddwyd i'r Cyngor yn caniatáu iddo atal Person Cofrestredig rhag gweitho hyd nes y ceir canlyniad ymchwiliad a gwrandawiad disgyblu. Mae'r Gorchymyn hwn yn ychwanegu at swyddogaethau'r Cyngor fel y gall y Cyngor, drwy Orchymyn Atal Dros Dro Interim, ddileu enw Person Cofrestredig oddi ar y gofrestr gyhoeddus cyn y ceir canlyniad ymchwiliad a gwrandawiad disgyblu.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Gorchymyn gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Gorchymyn oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Gorchymyn drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae erthygl 12 o'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â chais am adolygiad o orchymyn atal dros dro interim gan y person y mae'n ymwneud ag ef.

Mae paragraff (1)(a) yn caniatáu i gyn-berson cofrestredig wneud cais am adolygiad o orchymyn atal dros dro interim cyn pen 6 mis ar ôl:

(i) y dyddiad y gwnaed y gorchymyn atal dros dro interim; neu'r

(ii) dyddiad y cafodd y gorchymyn ei estyn gan yr Uchel Lys.

Mae paragraff (1)(b) yn caniatáu i'r cyn-berson cofrestredig wneud cais arall cyn pen 6 mis wedi hynny.

Pan fydd cais am adolygiad wedi'i wneud o dan baragraff (1)(a) neu (b) rhaid i'r Cyngor, o dan baragraffau (2)(a) a (b) yn y drefn honno, gynnull gwrandawiad i ystyried yr achos cyn i'r cyfnod o 6 mis ddod i ben.

Effaith hyn yw mai ychydig iawn o amser fydd gan y Cyngor i gynnull cyfarfod o bosibl. Mae'r enghraifft a ganlyn yn dangos hyn:

> *Gwneir gorchymyn atal dros dro interim yn erbyn person ("P") ddydd Iau 1 Ebrill. Bydd y cyfnod o 6 mis ers y dyddiad y gwnaed y gorchymyn yn dod i ben ddydd Iau 30 Medi.*
>
> *Ddydd Mercher 29 Medi, mae P yn cyflwyno cais (sy'n cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan Erthygl 13) i'r Cyngor yn gofyn iddo adolygu'r gorchymyn.*
>
> *Gan fod cais P yn bodloni Erthygl 12(1)(a) (fe'i gwnaed cyn pen 6 mis), er mwyn cydymffurfio ag Erthygl 12(2)(a)* ***rhaid*** *i'r Cyngor gynnull gwrandawiad i ystyried yr achos erbyn diwedd dydd Iau 30 Medi (pan ddaw'r cyfnod o 6 mis i ben).*

Drwy gymhwyso paragraffau (2)(a) a (b), gellid gorfodi'r Cyngor i gadw at amserlenni beichus mewn rhai amgylchiadau. Mae hyn yn anghyson â'r hyn a nodir ym mharagraff (2) (c) sy'n

caniatáu cyfnod o 10 diwrnod gwaith i'r Cyngor gynnull gwrandawiad yn dilyn cais a wnaed o dan baragraff (1)(c).

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 15 Mawrth 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.